

UNCRC TRAINING - POLICE RELATED SCENARIOS –scroll down for welsh

SCENARIO TYPE	DETAILS	RELEVANT UNCRC ARTICLES AND LEARNING POINTS
Anti Social Behaviour	Officers are dealing with a long standing ASB problem in which residents of a terraced street are continually calling police about children making a noise riding scooters and skateboards and cycling in the road. Residents have made many allegations about noise and language, which has antagonised the Childrens' parents and the children who say they are being victimised by police attending and have made counter allegations. Residents meanwhile complain that police are doing nothing. Police have tried to avoid enforcement action and potentially criminalising the children involved.	<p>What are the considerations for police in trying to deal with this ongoing issue, taking into account the UNCRC?</p> <p>What would you do in this situation?</p>
MISSING PERSONS & CHILD SEXUAL EXPLOITATION	Police are called repeatedly to a care home from where children are frequently going missing, taking up a lot of police and partners' resources. There are no criminal offences committed by the children but they are extremely vulnerable and believed to be at risk of CSE and do not cooperate with police or disclose information when they return from being missing.	<p>In such areas of higher risk how can police continue to deal with the vulnerabilities whilst taking account of the UNCRC?</p> <p>What would you do in this situation?</p>
CUSTODY	Under 18s in Police Custody: There is legislation and a range of force policies and procedures around how Under 18s are to be treated when arrested and in police custody, and also when Under 18s attend voluntarily or for the purpose of restorative justice purposes.	Are there steps that arresting, investigating, YOS and custody officers can take that will better consider the UNCRC?
STOP SEARCH/ STOP & ACCOUNT	Dealing with under 18s during routine stop searches can lead to situations where there is hostility and mistrust of police, but they can also provide opportunities for building trust and confidence.	Are there actions that police could take that help to achieve the aims of the UNCRC but at the same time facilitate the effective use of stop/search powers?
PREVENT/ RADICALISATION	A teenager has been identified as being at risk of radicalisation and is being engaged with by specialist officers from WECTU, from the local BCU, and by partner agencies. The teenager has 2 other teenage siblings.	Other than the current procedures for PREVENT (including CHANNEL) are there additional actions that officers and partners could take that would enhance the preventative work whilst achieving the aims of the UNCRC?
ENGAGEMENT IN SCHOOLS/ SCHOOL BEAT INCIDENTS	Neighbourhood officers are dealing with a series of low level incidents in a local school using the school beat policy and restorative justice disposals, supported by the local Schools Community Police officer.	Other than School Beat and RJ are there any other processes or actions that officers could take that would also help to support the childrens' rights under the UNCRC?

HYFFORDDIANT CCUHP – SCENARIOS CYSYLLTIEDIG Â'R HEDDLU

MATH O SCENARIO	MANYLION	ERTHYGLAU PERTHNASOL CCUHP A PHWYNTIAU DYSGU
YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL	Mae swyddogion yn delio â phroblem YGG hirsefydlog lle mae trigolion stryd o dai teras yn ffonio'r heddlu yn barhaus am blant yn gwneud sŵn yn reidio sgwteri a sglefrfyrdau ac yn beicio ar yr hewl. Mae'r trigolion wedi gwneud llawer o honiadau am sŵn a iaith, sydd wedi codi gwrychyn rhieni'r plant a'r plant eu hunain, sy'n dweud eu bod yn dioddef dan law'r heddlu sy'n dod i ddelio â'r sefyllfa, ac wedi gwneud gwrth-honiadau. Yn y cyfamser, mae'r trigolion yn cwyno bod yr heddlu'n gwneud dim. Mae'r heddlu wedi ceisio osgoi camau gorfodi a'r posibilrwydd o droseddoli'r plant dan sylw.	Beth yw'r ystyriaethau i'r heddlu wrth geisio delio â'r broblem barhaus yma, gan gymryd CCUHP i ystyriaeth? Beth fydddech chi'n gwneud yn y sefyllfa hon?
PERSONAU COLL AC ECSBLOETIO PLANT YN RHYWIOL	Mae'r heddlu'n cael eu galw'n aml i gartref gofal y mae plant yn mynd ar goll ohono'n aml, ac mae hynny'n defnyddio llawer o adnoddau'r heddlu a'u partneriaid. Dyw'r plant ddim yn cyflawni troseddau, ond maen nhw'n agored iawn i niwed, a chredir bod perygl iddyn nhw gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Dydyn nhw ddim yn cydweithredu â'r heddlu nac yn datgelu gwybodaeth wrth ddychwelyd ar ôl bod ar goll.	Mewn meysydd lle mae risg uchel o'r fath, sut gall yr heddlu barhau i ddelio â'r ffactorau sy'n gwneud y plant yn agored i niwed, ochr yn ochr â rhoi sylw i CCUHP? Beth fydddech chi'n gwneud yn y sefyllfa hon?
Y DDALFA	Rhai o dan 18 oed sydd yn y Ddalffa gyda'r Heddlu: Mae deddfwriaeth ac ystod o bolisiau a gweithdrefnau gan heddluoedd ynghylch sut mae rhai o dan 18 i gael eu trin adeg eu harestio ac yn y ddalffa, a hefyd pan fydd rhai dan 18 yn dod at yr heddlu o'u gwirfodd neu at ddibenion cyfiawnder adferol.	Oes yna gamau y gall swyddogion sy'n arestio, yn ymchwilio, YOS a swyddogion y ddalffa eu cymryd a fydd yn cymryd CCUHP i ystyriaeth yn well?
STOPIO A CHWILIO/ STOPIO A RHOI CYFRIF	Gall delio â rhai o dan 18 oed yn ystod stopio a chwilio arferol arwain at sefyllfaoedd o elyniaeth a diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, ond gallan nhw hefyd fod yn gyfleoedd i feithrin hyder ac ymddiriedaeth.	Oes yna gamau gallai'r heddlu eu cymryd sy'n helpu i gyflawni nodau CCUHP ond ar yr un pryd yn hwyluso defnydd effeithiol o bwerau stopio/chwilio?
PREVENT/ RADICALEIDDIO	Nodwyd bod person ifanc yn eu harddegau mewn perygl o gael eu radicaleiddio, ac mae swyddogion arbenigol o WECTU, o'r BCU lleol, ac asiantaethau partner yn ymgysylltu â nhw. Mae gan y person ifanc 2 sibling arall yn eu harddegau.	Heblaw gweithdrefnau cyfredol PREVENT (gan gynnwys CHANNEL) a oes camau ychwanegol y gallai swyddogion a phartneriaid eu cymryd a fyddai'n gwella'r gwaith ataliol, ond hefyd yn cyflawni nodau CCUHP?
YMGYSYLLTU MEWN YSGOLION/ DIGWYDDIADAU BÎT YSGOL	Mae swyddogion cymdogaeth yn delio â chyfres o ddigwyddiadau lefel isel mewn ysgol leol, gan ddefnyddio'r polisi bît ysgol a gwarediadau	Heblaw'r Bît Ysgol a Chyfiawnder Adferol oes yna unrhyw brosesau neu gamau gweithredu eraill ar gael i

	cyfiawnder adferol, gyda chefnogaeth swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgolion yn lleol.	swyddogion a fyddai hefyd yn helpu i gefnogi hawliau'r plant o dan CCUHP?
--	---	---